# CYNGOR SIR YNYS MÔN

## Cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 15 Rhagfyr, 2016

| | |
|---|---|
| **YN BRESENNOL:** | Cynghorydd Robert G Parry OBE (Cadeirydd)<br>Cynghorydd Richard Owain Jones (Is-Gadeirydd)<br><br>Y Cynghorwyr R Dew, Jeff Evans, Jim Evans, Ann Griffith, John Griffith, K P Hughes, Vaughan Hughes, Llinos Medi Huws, A M Jones, Carwyn Jones, G O Jones, H E Jones, R.Meirion Jones, Alun W Mummery, Dylan Rees, J A Roberts, Nicola Roberts, P S Rogers, Alwyn Rowlands, Dafydd Rhys Thomas a Ieuan Williams |
| **WRTH LAW:** | Prif Weithredwr<br>Pennaeth Swyddogaeth (Adnoddau) a Swyddog Adran 151<br>Pennaeth Swyddogaeth (Busnes y Cyngor)/Swyddog Monitro<br>Pennaeth Gwasanaethau Democrataidd<br>Swyddog Pwyllgor (ATH) |
| **YMDDIHEURIADAU:** | Y Cynghorwyr Lewis Davies, Derlwyn R Hughes, T Ll Hughes , Victor Hughes, W T Hughes a R Ll Jones |

**1. COFNODION**

Cyflwynwyd cofnodion cyfarfodydd y Cyngor Sir a gynhaliwyd ar 27 Medi 2016 a 18 Hydref 2016 (arbennig) a chadarnhawyd eu bod yn gywir.

**2. DATGANIAD O DDIDDORDEB**

Datganodd y Cynghorydd R. Meirion Jones ddiddordeb personol a oedd yn rhagfarnu mewn perthynas ag eitem 7 ar y rhaglen.

Datganodd y Cynghorydd Richard Dew ddiddordeb personol mewn perthynas ag eitem 8 ar y rhaglen.

**3. DERBYN UNRHYW GYHOEDDIADAU GAN Y CADEIRYDD, ARWEINYDD Y CYNGOR NEU'R PRIF WEITHREDWR**

Gwnaeth y Cadeirydd y cyhoeddiadau canlynol:

- Llongyfarchwyd pawb a oedd yn llwyddiannus yn y Ffair Aeaf a gynhaliwyd ym Mona fis diwethaf a hefyd yn Llanfair ym Muallt.
- Llongyfarchwyd Ffermwyr Ifanc Ynys Môn a fu'n llwyddiannus yn Eisteddfod Genedlaethol y Ffermwyr Ifanc a gynhaliwyd yn Abertawe.
- Diolchwyd i staff a defnyddwyr gwasanaeth Blaen y Coed a Gerddi Heulfre am addurno Coeden Nadolig y Cyngor Sir yng nghyntedd Cyswllt Môn.

• Gyda thristwch y clywodd y Cyngor Sir am farwolaeth un o'i gyn aelodau, Mrs Bessie Burns, a oedd yn 89 mlwydd oed. Etholwyd Mrs Burns yn Gadeirydd y Cyngor Sir yn 2003/04 ac roedd yn cynrychioli etholaeth Llanfaethlu. Yn ystod ei gyrfa fel cynghorydd sir, dangosodd Mrs Burns ddiddordeb arbennig yn y Gwasanaethau Cymdeithasol.
• Cydymdeimlwyd ag unrhyw Aelod o'r Cyngor neu aelod o staff sydd wedi cael profedigaeth yn ddiweddar.

*Safodd yr Aelodau a Swyddogion a oedd yn bresennol mewn tawelwch fel arwydd o gydymdeimlad a pharch.*

Cyfeiriodd y Cadeirydd at y Cyngerdd Nadolig yng Nghanolfan Addysg y Bont y cafodd bleser mawr o'i fynychu, a diolchodd ar ran y Cyngor i staff a disgyblion Canolfan Addysg y Bont am eu gwaith caled. Dymunodd y Cadeirydd Nadolig Llawen a Blwyddyn Newydd heddychlon i bawb a oedd yn bresennol.

**4. CWESTIYNAU A DDERBYNIWYD YN UNOL Â RHEOL 4.1.12.4 Y CYFANSODDIAD**

Ni dderbyniwyd unrhyw gwestiynau yn unol â'r rheol hon.

**5. CYFLWYNO DEISEBAU**

Yn unol â Pharagraff 4.1.11 y Cyfansoddiad, cyhoeddodd y Cadeirydd bod rhieni disgyblion Ysgol Talwrn wedi cyflwyno deiseb yn gwrthwynebu cau'r ysgol. Dywedodd y Cadeirydd y byddai'r ddeiseb yn cael ei throsglwyddo i Wasanaeth Dysgu Gydol Oes y Cyngor.

**6. CYNLLUN GOSTYNGIADAU'R DRETH GYNGOR 2017/18**

Cyflwynwyd er ystyriaeth y Cyngor – adroddiad y Pennaeth Swyddogaeth (Adnoddau) a Swyddog Adran 151 mewn perthynas â'r angen i fabwysiadu Cynllun Gostyngiadau'r Dreth Gyngor am 2017/18. Mae angen i'r Cyngor adolygu ei gynllun presennol neu ei ddisodli gyda chynllun Gostyngiadau'r Dreth Gyngor arall ddim hwyrach na 31 Ionawr yn y flwyddyn ariannol cyn y bydd y cynllun diwygiedig neu'r cynllun newydd yn dod i rym. Roedd yr adroddiad yn rhoi manylion am adolygiad o'r cynllun presennol ar gyfer 2016/17 (Atodiad B) o ran ei effaith a'r sefyllfa mewn perthynas â'r disgresiwn lleol y mae gan y Cyngor yr hawl i'w ddefnyddio ac y mae'r Cyngor wedi'i roi.

**Penderfynwyd –**

**• Peidio adolygu na disodli'r Cynllun Gostyngiadau'r Dreth gyfredol gyda chynllun arall.**
**• Mabwysiadu'n ffurfiol y Cynllun Gostyngiadau'r Dreth Gyngor cyfredol (gweler Atodiad A) am y flwyddyn ariannol 2017/18.**
**• Rhoi'r awdurdod i'r Pennaeth Swyddogaeth (Adnoddau) a Swyddog Adran 151 wneud trefniadau gweinyddol fel bod yr holl newidiadau blynyddol ar gyfer uwchraddio ffigyrau ariannol neu ddiwygiadau technegol mewn unrhyw**

**reoliad neu reoliadau sy'n diwygio yn cael eu hadlewyrchu yng Nghynllun Gostyngiadau'r Dreth Gyngor y Cyngor am bob blwyddyn ddilynol.**

## 7. MABWYSIADU PWERAU GAN Y CYNGOR A DIRPRWYAETH I SWYDDOG

Cyflwynwyd er ystyriaeth - adroddiad gan y Pennaeth Swyddogaeth (Busnes y Cyngor)/Swyddog Monitro yn gofyn i'r Cyngor fabwysiadu'r pwerau a restrir yn Atodiad 1 yr adroddiad ac i'r pwerau hynny gael eu dirprwyo i'r Pennaeth Gwasanaeth (Rheoleiddio a Datblygu Economaidd).

*Gan ei fod wedi datgan diddordeb a oedd yn rhagfarnu yn y mater, nid oedd y Cynghorydd R. Meirion Jones yn bresennol yn ystod y drafodaeth a'r penderfyniad.*

**Penderfynwyd –**

- **Mabwysiadu'r pwerau a restrir yn Atodiad 1 yr adroddiad.**
- **Diwygio'r Cynllun Dirprwyo yn y Cyfansoddiad i ddirprwyo awdurdod i'r Pennaeth Gwasanaeth (Rheoleiddio a Datblygu Economaidd) ddefnyddio'r pwerau hyn.**
- **Awdurdodi'r Pennaeth Swyddogaeth (Busnes y Cyngor)/Swyddog Monitro i wneud y newidiadau angenrheidiol i'r Cynllun Dirprwyo ac unrhyw newidiadau dilynol, er mwyn adlewyrchu mabwysiadu a dirprwyo'r pwerau hyn.**

## 8. RHYDDID Y SIR I WASANAETH LLONGAU TANFOR Y LLYNGES FRENHINOL

Cyflwynwyd er ystyriaeth - adroddiad y Pennaeth Gwasanaethau Democrataidd mewn perthynas â'r protocolau a'r gweithdrefnau angenrheidiol ar gyfer caniatáu Rhyddid y Sir i Wasanaeth Llongau Tanfor y Llynges Frenhinol.

**Penderfynwyd –**

- **Cynnal cyfarfod arbennig o'r Cyngor i bwrpas caniatáu Rhyddid y Sir i Wasanaeth Llongau Tanfor y Llynges Frenhinol. Mae angen mwyafrif o ddwy ran o dair i gymeradwyo'r penderfyniad.**
- **Gwahodd cynrychiolwyr o Wasanaeth Llongau Tanfor y Llynges Frenhinol i'r cyfarfod arbennig.**

**Y CYNGHORYDD R.G. PARRY OBE FRAgS**
**CADEIRYDD**